# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

**Rhifyn chwech – Hydref 2020**



# Coronafeirws

## Cymunedau yn dod at ei gilydd

**Rydym i gyd wedi gweld cyfnod digynsail dros y 10 mis diwethaf gyda COVID-19 a'r cyfnod clo ar draws y wlad. Fodd bynnag, mae'n anhygoel gweld sut mae rhai cymunedau wedi dod at ei gilydd drwy'r cyfan!**

Enghraifft wych o hyn yw pan wnaeth preswylwyr Maes Menlli, Parc Bruton, y Rhyl, sydd eisoes yn gymuned agos, ddod at ei gilydd yn ystod y cyfnod clo a phenderfynu cefnogi ei gilydd gyda bingo stryd pellter cymdeithasol, cwis a boreau coffi! Roedd un o'r preswylwyr, Debbie Holmes wedi dod â'r gymuned hyd yn oed yn agosach gyda'u paned bore, ble byddent yn galw allan ar ei gilydd i weld os oedd unrhyw un angen neges a gwneud yn siŵr eu bod yn iawn!



Roedd Debbie wedi trefnu'r bingo i godi calon pawb ac roedd cymydog yn ddigon caredig drwy wirfoddoli i fod yn alwr bingo! Dywedodd, "Mae yna wir deimlad o gymuned ar y stryd nawr ers y coronafeirws. Mae wedi dod â ni yn llawer agosach at ein gilydd". Ychwanegodd Debbie ei bod yn bwysig i iechyd meddwl preswylwyr, gan wneud yn siŵr eu bod yn "gwybod nad ydynt ar ben eu hunain."

Dilynwyd rheolau cadw pellter cymdeithasol ac roedd pawb yn eistedd y tu allan i'w drws ffrynt ac yn ymuno i mewn. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant anhygoel ac roedd y stori yn y Daily Post, ar ITV ac ar deledu cenedlaethol! Da iawn i Debbie a phreswylwyr Maes Menlli am fod yno i'w gilydd fel cymuned yn ystod cyfnod mor anodd.

**Mae yna gymaint o straeon tebyg wedi bod ar draws ein Cymunedau yn Sir Ddinbych ac os oes gennych unrhyw straeon o ysbryd cymunedol yn ystod y pandemig, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi! Anfonwch e-bost neu ffoniwch!**

**Adran Dai Sir Ddinbych yn ymateb i'r pandemig –**

**i weld sut rydym wedi ymateb i'r pandemig, ewch i dudalen 4.**

**Arolwg STAR**

**Mae eich barn yn bwysig! Ar gyfer eich siawns i ennill cerdyn rhodd £100 a'n helpu i godi ein safonau i chi, ewch i dudalen 10 a sut i lenwi eich Arolwg Tenant 2020!**

**Dolen i'r wefan yn FYW!**

**Rydym yn falch i gyhoeddi fod ein gwefan newydd nawr yn FYW! Ewch i dudalen 18 i gael mwy o wybodaeth.**



# Yn y rhifyn hwn

## Tai Sir Ddinbych:


| | |
|---|---|
| Neges gan Geoff Davies | **Tudalen 3** |
| Neges oddi wrth Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych | **Tudalen 3** |
| Diweddariad ar y Coronafeirws | **Tudalen 4–6** |
| Arolwg STAR 2020 | **Tudalen 10–11** |
| Yma i helpu | **Tudalen 15** |
| Adnabod eich swyddog tai | **Tudalen 16–17** |
| Mae'r wefan yn fyw! | **Tudalen 18–19** |


## Buddsoddiad a Gwelliannau:


| | |
|---|---|
| Rhaglen Ddatblygu Tai | **Tudalen 7** |
| Gwaith wedi'i gynllunio | **Tudalen 8** |

- Gwelliannau allanol Gallt Melyd
- Gwelliannau gwresogi
- Uwchraddio ffenestri, ffasgia a soffit

| | |
|---|---|
| Newidiadau i waith trwsio a chynnal a chadw | **Tudalen 12** |


## Cymuned a Phobl:


| | |
|---|---|
| Côd Ymddygiad | **Tudalen 6** |
| Llais y Sir | **Tudalen 9** |
| Twyll Tenantiaeth | **Tudalen 9** |
| Cadw'n Gynnes y Gaeaf hwn | **Tudalen 13** |
| Sut mae cymryd rhan? | **Tudalen 14** |
| Sgwrs y Sir | **Tudalen 14** |
| Sir Ddinbych yn Gweithio | **Tudalen 15** |
| Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych | **Tudalen 20** |
| TPAS Cymru – Pwls Tenantiaid | **Tudalen 20** |




## Bwrdd Newyddion

**Teleofal**
**0300 123 3068**

**Gwasanaethau Cwsmeriaid**
**01824 706000**

**Rhif Argyfwng y tu allan i oriau swyddfa**
**0300 123 3068**

**Llinell Llifogydd**
**0345 988 1188**

**Rhif Argyfwng Nwy**
**0800 111 999**

**Rhif Argyfwng Trydan**
**0800 404 090**

**Galw Iechyd Cymru**
**0845 46 47**

# Neges gan Geoff Davies

**Swyddog Arweiniol Tai Sir Ddinbych**

**Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Newyddlen Tai Sir Ddinbych. Rydym bob amser yn pwysleisio pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad gyda chi a'n cymunedau, ond mae'r rhifyn hwn yn teimlo'n bwysicach nag erioed. Mae pob un ohonom wedi wynebu ynysiad yn ystod y cyfnod clo, sydd wedi bod yn ddigynsail yn ddiweddar. Rydym yn gwybod fod llawer ohonoch wedi aberthu cymaint, yn methu gweld eich anwyliaid i gadw eich teuluoedd a'ch cymunedau yn ddiogel.**

Rydym yn gwerthfawrogi ymdrechion pawb drwy'r cyfnod clo. Rydym wrth ein bodd yn clywed a gweld cymaint o straeon am sut mae unigolion a chymunedau wedi cefnogi ei gilydd drwy'r adegau anodd hyn. Yn anffodus, bu'n rhaid i ni ohirio ein gwobrau tenantiaid eleni, ond byddant yn well nag erioed pan fyddwn yn gallu eu hail lansio eto. Allwn ni ddim aros i gydnabod cymaint o bobl sydd wedi bod yn anhygoel yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae ein harolwg STAR diweddaraf ynghlwm, felly cymerwch amser i roi eich barn os gwelwch yn dda. Dyma ein prif arolwg o'r holl denantiaid a'r aelwydydd. Mae eich barn a'ch adborth yn hanfodol i adael i ni wybod sut rydym yn dod ymlaen, a datblygu'r hyn sydd angen ei wneud wrth symud ymlaen. Rydym eisiau ei wneud mor hawdd â phosibl i chi lenwi'r arolwg. Gallwch chi wneud hyn ar-lein (gweler tudalen 10 ar gyfer y ddolen) drwy lenwi'r arolwg ynghlwm a'i bostio yn ôl i ni neu drwy roi galwad ffôn i ni, eich swyddog tai ar **01824 706000** a'i lenwi dros y ffôn.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r newyddlen ac os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau yna gadewch i ni wybod.

# Neges gan ffederasiwn tenantiaid a phreswylwyr Sir Ddinbych

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Gobeithio eich bod i gyd wedi bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod clo.

Mae pob un ohonom wedi gorfod addasu i fywyd cymunedol gwahanol iawn yn ystod y misoedd diwethaf ac mae'n anhygoel sut mae cymdogion a chymunedau gwych wedi bod yn helpu a chefnogi ei gilydd drwy'r cyfnod anodd hwn.

Mae'r arolwg STAR yn bwysig i ni ac rydym yn gwybod bod Tai Sir Ddinbych yn defnyddio eich adborth wrth edrych ar beth sydd angen ei wneud i wella'r gwasanaeth.

Rydym yn gwybod bod ynysu wedi bod yn fater mawr i lawer ohonom, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r adran dai i ddod o hyd i ffordd i ail-agor canolfannau mewn cynlluniau pobl hŷn, ond rydym yn gwerthfawrogi bod yna lawer o risg yn parhau i bobl gwrdd dan do, pa mor bynnag ynysig yr ydym yn teimlo.

Mae'n gyfnod anodd ond cadwch olwg ar eich cymdogion os gwelwch yn dda ac os oes gennych unrhyw bryderon yna ffoniwch eich Swyddog Tai.

Mae Tai Sir Ddinbych wedi symud adrannau yn ddiweddar o fewn Cyngor Sir Ddinbych a'r Pennaeth Gwasanaeth newydd yw Liz Grieve, Pennaeth Cwsmeriaid a Chymunedau. Mae Liz yn awyddus i sicrhau bod Tai Sir Ddinbych yn parhau i ddatblygu sut rydym yn gweithio gyda'n cymunedau a sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi aelwydydd. Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i Jamie Groves, y Pennaeth Gwasanaeth blaenorol am ei holl angerdd, a symud tai ymlaen, gyda thenantiaid yn ganolbwynt a dymuno'n dda iddo fel Rheolwr Gyfarwyddwr newydd Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

Yn olaf, rydym yn falch fod Vicki Shenton, Tai Sir Ddinbych wedi'i phenodi ar Fwrdd TPAS Cymru. Mae hwn yn newyddion gwych i ni yn Sir Ddinbych gan fod TPAS yn sefydliad hir sefydlog sy'n cefnogi tenantiaid ac yn sicrhau bod llais y tenant yn cael ei glywed ar draws Cymru. Llongyfarchiadau mawr i Vicki.

# Diweddariad ar y Coronafeirws

Mae'r 8 mis diwethaf wedi bod yn addasiad enfawr i bob un ohonom a gobeithio eich bod i gyd yn ddiogel ac yn iach. Mae llawer wedi newid i gymaint ohonom, gan gynnwys sut rydym yn darparu ein gwasanaethau i chi. Mae gennym ffyrdd newydd o weithio ar gyfer y dyfodol agos a mesurau ar waith i'ch cadw chi, ein staff a'n cymunedau yn ddiogel. Rydym eisiau eich sicrhau chi ein bod yn parhau i wneud popeth y gallwn i'ch helpu a'ch cefnogi drwy'r cyfnod ansicr hwn.

Rydym wedi ymrwymo i'r 4 egwyddor y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru a landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru:

1. Eich cadw'n saff a diogel yn eich cartref
2. Eich helpu i gael y gefnogaeth ariannol sydd ei angen arnoch
3. Eich cefnogi a dod o hyd i ddatrysiadau os ydych chi'n cael anhawster talu eich rhent
4. Gwneud popeth y gallwn i gefnogi eich lles.

I gefnogi hyn, rydym wedi gwneud dros 3,500 o alwadau lles i'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn gwarchod eich hun neu sy'n ddiamddiffyn. Rydym bob amser yma i helpu i ddarparu cefnogaeth i chi gyda chyllidebu, rheoli ôl-ddyledion, prydau ysgol am ddim a chefnogaeth ddigidol. Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 15:

Rydym yn parhau i fonitro unrhyw gyngor neu newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn arbennig ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol a helpu i gefnogi i leihau lledaeniad y coronafeirws. Rydym i gyd wedi gwneud mor dda i fynd i'r afael â'r coronafeirws hyd yma ac yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn i ofyn i chi barhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a chyngor ar gadw pellter cymdeithasol ac ati i'n cadw i gyd yn ddiogel.

Mae'n bwysig ein bod yn eich diogelu chi a'n gweithlu. Rydym wedi cael adroddiadau nad yw tenantiaid yn dilyn y rheol cadw pellter cymdeithasol 2 fetr pan rydym yn ymweld â'u cartrefi. Hoffem eich atgoffa chi am y cyngor a rannwyd gyda chi ym mis Mai. Os ar unrhyw adeg, y byddwn yn meddwl bod ein staff neu unrhyw un yn eich cartref mewn perygl drwy beidio dilyn y rheol 2 fetr, byddwn yn gofyn yn garedig i chi gadw pellter cymdeithasol ac os bydd hyn yn parhau, bydd yn rhaid i ni ymddiheuro a dod â'r ymweliad i ben.

Mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn cadw pawb yn ddiogel gymaint â phosibl.

## Ymweliadau â'r cartref

Rydym yn gobeithio gallu ymweld â rhai ohonoch yn ystod y misoedd nesaf, i weld sut rydych yn dod ymlaen a chefnogi unrhyw bryderon neu broblemau a brofir gennych. Bydd pethau yn wahanol er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Ble bo'n bosibl:

- Bydd apwyntiadau yn cael eu trefnu ymlaen llaw.
- Fe fyddwn yn eich ffonio cyn ymweld ac yn gofyn i chi gadarnhau nad ydych chi'n dangos unrhyw symptomau nac yn hunan-ynysu 24 awr cyn eich apwyntiad. Byddwn yn gadael i chi wybod beth i'w ddisgwyl yn ystod eich ymweliad.
- Os oes gennych symptomau COVID-19, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym cyn ymweld neu pan fyddwn yn cyrraedd fel y gallwn aildrefnu'r apwyntiad.
- Wrth agor y drws, gwiriwch pwy sydd yno, agorwch y drws, symudwch yn ôl i mewn i'ch eiddo. Bydd y swyddog yn aros 2 fetr i ffwrdd o'ch drws.
- Yn dibynnu ar y rheswm dros ein hymweliad, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi os gallwn siarad gyda chi wrth y drws ffrynt neu drwy'r intercom, yn hytrach na dod i mewn i'ch eiddo. Fodd bynnag, os yw'n ddiogel gwneud hynny, a'ch bod yn hapus i ni ddod i'ch eiddo, yna byddwn yn fwy na hapus i siarad gyda chi yng nghysur eich cartref eich hun.
- Os byddwn angen dod i mewn i'ch cartref, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw 2 fetr i ffwrdd, neu ewch i ystafell arall fel y gallwn ddod i mewn i'ch cartref yn ddiogel.
- Byddwn yn gofyn i chi ac i eraill yn y cartref wisgo gorchudd wyneb, oni bai eich bod chi neu unrhyw un wedi eich eithrio am resymau meddygol.
- Ni fyddwn yn gallu ysgwyd llaw.
- Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE).
- Byddwn yn gofyn i bawb arall aros mewn ystafell wahanol, oni bai eu bod yn gyd-denantiaid neu'n hanfodol ar gyfer cefnogaeth.
- Byddem hefyd yn gofyn i chi aros o leiaf 2 fetr oddi wrth y staff. Os na chedwir pellter cymdeithasol ar unrhyw adeg, byddwn yn eich atgoffa'n garedig i gadw pellter cymdeithasol. Os bydd hyn yn parhau, neu os bydd unrhyw un yn y tŷ mewn perygl, byddwn yn gorfod ymddiheuro a dod â'r ymweliad i ben ar unwaith.





## Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Fel yr ydym yn siŵr y gallwch werthfawrogi, rydym wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau yn ystod y pandemig. Mae wedi bod yn amgylchiadau anodd i bawb. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i bawb os gallant fod yn ystyriol i'w cymdogion yn ystod y pandemig. Yn dilyn cyngor a rheolau diweddaraf Llywodraeth Cymru, mae parcio'n ystyriol, dim gweiddi a sgrechian, bod yn ymwybodol o beth mae eich plant yn ei wneud yn y gymuned, yn rhai enghreifftiau o sut y gallwn i gyd helpu ein gilydd.

**Os ydych yn dymuno rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol, gallwch gysylltu â ni ar 01824 706000 neu drwy ein gwefan www.taisirddinbych.co.uk/ymddygiad-gwrthgymdeithasol/**

## Digwyddiadau cymunedol ac ailadeiladu ein cymunedau

We have had to sadly cancel all our up and coming community events for this year. We are working on a programme to try to support communities digitally as well as other alternative formats. Keep an eye on our social media accounts for any new events coming soon. If you have any ideas or suggestions then please let us know.



## Mae'r mesurau newydd sydd gennym ar waith (yn gywir adeg printio) yn cynnwys:




# Cod ymddygiad

Credwn fod gan ein tenantiaid yr hawl i gael llais, i gael eu deall a'u parchu. Rydym hefyd yn credu fod gan ein staff yr hawl i weithio mewn amgylchedd diogel, heb unrhyw niwed gan eraill. Rydym yn disgwyl i holl denantiaid drin ein staff gyda pharch a chwrteisi.

Mewn nifer fach iawn o achosion, ble mae rhai tenantiaid yn rhwystredig, mae eu camau yn annerbyniol oherwydd eu bod yn cam-drin ein staff. Nid yw camau sy'n arwain at alw annerbyniol ac/neu ymddygiad bygythiol tuag at ein staff yn dderbyniol.

Mae ymddygiad ymosodol neu sarhaus yn cynnwys iaith (boed ar lafar neu'n ysgrifenedig) a allai beri i staff neu lywodraethwyr deimlo'n ofnus, dan fygythiad neu wedi eu sarhau ac fe all hynny gynnwys bygythiadau, cam-drin geiriol personol, sylwadau difrïol ac anfoesgarwch.

Mae ymddygiad bygythiol a threisiol o'r fath tuag at staff yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn y gymdogaeth yn annerbyniol. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad o'r fath tuag at ein staff ac mae'n amlwg yn torri ein cytundeb tenantiaeth a gallai arwain atom yn cymryd camau i ddod â'r denantiaeth i ben.

Rydym bob amser yn fodlon bod yn agored ac adeiladol ag y gallwn gyda'n tenantiaid a byddem yn gwerthfawrogi ymateb tebyg heb iaith anaddas ac ymddygiad dychrynllyd gennych chi.



# Ein Rhaglen Datblygu Tai

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Yn ein newyddlen yr hydref diwethaf, fe'ch hysbyswyd ein bod wedi gwneud cais am ganiatâd cynllunio i adeiladu 22 o gartrefi newydd ar dir uwchben Tan y Sgubor yn Ninbych.

Ym mis Ionawr, cadarnhawyd bod ein cais wedi'i gymeradwyo ac ym mis Mai mi benodwyd Brenig Construction o Fochdre i adeiladu'r tai newydd i ni. I'w hadeiladu'n gynt, rydym yn defnyddio system a elwir yn ddull modern o adeiladu. Mae hyn yn cynnwys gwneud llawer o'r darnau, sy'n mynd i mewn i'r tai newydd mewn ffatri. Mae'r ffatri yn eiddo i Menter Creadigol, sy'n rhan o'r landlord



cymdeithasol Cartrefi Conwy, a leolir yn Abergele. Mae'r gwaith yn dechrau ar y safle yn yr hydref a bydd y tai newydd yn barod i denantiaid symud iddynt yn ystod yr haf 2021.

Byddwn hefyd yn penodi contractwr i ddechrau adeiladu rhandai effeithlonrwydd ynni, gan ddefnyddio mwy o ddulliau traddodiadol o adeiladu ar safle ffreutur yr hen ysgol ar Ffordd Caradog ym Mhrestatyn. Mae gwaith yn dechrau ar y safle hwn yn ystod yr hydref a dylai rhandai fod yn barod yn y gwanwyn 2021.

Hefyd ym Mhrestatyn, mae penseiri wedi bod yn gwneud cynnydd gyda dyluniad ar gyfer datblygu rhandai newydd ar safle'r hen lyfrgell ar Ffordd Llys Nant. Mae'r datblygiad yn cynnwys adeiladu mwy na naw o gartrefi newydd, felly rydym wedi cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda thenantiaid cyn cyflwyno ein cais cynllunio. Mae hyn wedi gorffen a byddwn yn cyflwyno ein cais cynllunio yn fuan. Rydym yn gobeithio gwybod beth fydd y penderfyniad erbyn diwedd 2020, fydd yn ein galluogi i weithio ar y datblygiad yn y gwanwyn 2021. Byddwn yn rhoi diweddariad ar gynnydd yn y newyddlen nesaf.

# Gwaith wedi'i gynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mae ein rhaglen gwaith wedi'i chynllunio wedi parhau eleni, er gwaethaf y sefyllfa bresennol a dyma rai o enghreifftiau o'r hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud ac wedi'i gynllunio.**



## Prif Welliannau Allanol Gallt Melyd

Bydd gwaith allanol pellach yn parhau eleni fel rhan o'n hymrwymiad i fuddsoddi yn ein cymunedau. Eleni, mae 55 eiddo arall yng Ngallt Melyd wedi eu dewis ar gyfer atgyweiriadau allanol sylweddol, fydd yn cynnwys toeau newydd, gwelliannau rendro a ffascias newydd, soffit a chafnau a pheipiau glaw. Mae'r ystadau, fydd yn cael budd o'r gwelliannau, yn cynnwys rhai o'n stoc dai hynaf yng Ngallt Melyd a hefyd yn cynnwys:

- Ffordd Ty Newydd
- Ffordd Pennant
- Ffordd Talargoch
- Rhodfa Plas
- Rhodfa Graig
- Rhodfa Ganol
- Ffordd Bryn Melyd

Byddwn mewn cysylltiad yn fuan i gadarnhau manylion gyda'r tenantiaid hynny sydd wedi eu cynnwys. Bydd y contract yn dechrau yn ddiweddarach yr hydref hwn a chwblheir erbyn mis Mawrth 2021. Bydd y gwaith gwella yn sicrhau bod cartrefi tenantiaid yn cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru ac yn bwysicach na dim rhoi cartref i denantiaid y gallant fod yn falch ohono a theimlo'n ddiogel ynddo.

Os ydych yn byw yng Ngallt Melyd, efallai y byddwch yn meddwl beth yw ein cynlluniau ar gyfer y safle, ble cafodd tai eu dymchwel flynyddoedd yn ôl ar Ffordd Tŷ Newydd. Rydym yn rhwystredig nad yw'r safle hwn wedi'i ailddatblygu gyda chartrefi newydd sbon eto. Rydym yn ymwybodol y byddai unrhyw dai newydd yn cynyddu'r traffig ar hyd Ffordd Tŷ Newydd, felly rydym eisiau ystyried effaith hyn a datblygiadau eraill yn yr ardal cyn dechrau. Byddwn yn rhoi diweddariadau i breswylwyr ar unrhyw gynnydd.

## Gwelliannau gwresogi

Fel rhan o'n gwaith i wella effeithiolrwydd ynni yn ein heiddo, rydym yn bwriadu diweddaru tua 120 eiddo i ffurf adnewyddadwy o wresogi'r flwyddyn ariannol hon. Nid yw'r eiddo a ddewiswyd ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys cysylltiad nwy ar hyn o bryd. Mae'r pympiau gwres ffynhonnell aer newydd yn gweithio drwy roi hwb i dymheredd yr aer y tu allan a throsglwyddo hwn i wres, yn ôl yn yr eiddo, tebyg iawn i system gwresogi confensiynol drwy reiddiaduron a phibellau. Mae'r systemau gwresogi yn adnewyddadwy a dylent arbed ynni yn sylweddol a gwella'r eiddo a ddewiswyd ar gyfer diweddaru. Bydd y gosodiadau newydd yn cael eu cwblhau ar draws sawl ystâd yn Sir Ddinbych a bydd pob tenant perthnasol yn derbyn hysbysiad ymlaen llaw o'r gwelliannau rhwng nawr a Mawrth 2021.

Rydym hefyd yn gobeithio uwchraddio nifer o eiddo arall o wres Economi 7, sydd â mynediad i gysylltiad nwy, boeler gas cyfunol. Bydd hyn yn cynnig mwy o arbedion effeithlonrwydd ac yn gostwng biliau tanwydd tenantiaid. Byddwn yn ysgrifennu at bob tenant y gellir cwblhau gwaith ar eu heiddo cyn gwyliau'r Nadolig.

Bydd cyfanswm buddsoddiad y ddau gynllun dros £1m a bydd buddsoddiad pellach i fynediad i nwy yn ogystal ag uwchraddio boeleri arferol yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## Uwchraddio ffenestri, ffasgia a soffit

Yn olaf, rydym yn bwriadu diweddaru nifer o ffenestri, ffasgia a soffit ar draws sawl ystâd. Mae arolygon diweddar wedi nodi nifer o ddatblygiadau sydd angen gwelliannau ac rydym yn datblygu rhaglen ar hyn o bryd i wneud y gwaith hwn. Bydd y gwaith yn gwella ymddangosiad yr eiddo yn sylweddol yn ogystal â darparu dull amgen hawdd i'w gynnal ar gyfer deunydd to presennol i denantiaid.





# Dod i wybod mwy – Llais y Sir




Fel rhan o'r Cygnor, rydym eisiau gadael i chi wybod am Lais y Sir, newyddlen preswylwyr Sir Ddinbych. Mae'n rhoi'r holl newyddion diweddaraf i chi am wasanaethau'r Cyngor a gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y gymuned, gweithgareddau a llawer mwy.

Os hoffech danysgrifio i sicrhau eich bod yn derbyn eich copi drwy e-bost, gallwch gofrestru yn **countyvoice.denbighshire.gov.uk/llais-y-sir/llais-y-sir-medi-2020/newyddion-2/gwefan-newydd-y-cyngor-yn-fyw**

Gallwch ddarllen y rhifyn diweddaraf yma **llaisysir.sirddinbych.gov.uk/cymraeg**

# Twyll Tenantiaeth



## Beth i'w wneud os ydych yn amau twyll

Twyll tenantiaeth, er enghraifft yw pan mae gan denant denantiaeth gyda ni ond yn byw yn rhywle arall, yn gosod y cartref i rhywun arall (gan gynnwys aelodau o'r teulu). Mae hefyd yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug wrth ymgeisio am dai, neu ymgeisio'n anghyfreithiol i olynu tenantiaeth rhywun sydd wedi marw.

## Camau a gymerir gennym yn erbyn twyll tenantiaeth

Byddwn yn ymchwilio i holl gyhuddiadau o dwyll tenantiaeth, gan ei fod yn ddifrifol iawn. Ble mae yna ddigon o dystiolaeth bod yna dwyll wedi digwydd, byddwn yn cymryd camau. Gall y camau hyn gynnwys erlyniad troseddol ac/neu hawlio meddiant yr eiddo drwy'r llysoedd sifil.

## Beth fedrwch chi ei wneud i helpu?

Os ydych yn meddwl bod rhywun yn euog o dwyll tenantiaeth gadewch i ni wybod drwy siarad gyda'ch Swyddog Tai, **ffoniwch ni ar 01824 706000 neu anfonwch e-bost at tai@sirddinbych.gov.uk**

Bydd pob adroddiad yn cael ei drin yn gyfrinachol ac ni fyddwch yn cael eich adnabod gan y sawl yr adroddwyd amdanynt. Nid oes angen i chi roi eich manylion cyswllt i ni. Fodd bynnag, os hoffech i ni gysylltu â chi ymhellach ynglŷn â'ch adroddiad, gadewch eich enw a'ch rhif cyswllt.



# Mae Eich Barn Chi'n Bwysig!

## Os hoffech gael cyfle i ennill taleb rhodd **£100**, dyma sut!

**Mae eich barn chi'n bwysig!** Mae Tai Sir Ddinbych wedi gweld mwy o newidiadau mawr dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae arnom eisiau codi ein safonau i'r lefel uchaf bosib' ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny.

Mae eich barn o bwys i ni ac yn helpu i ddatblygu ein gwasanaethau a ddarperir i chi, felly llenwch eich arolwg yn fuan os gwelwch yn dda.

### Sut gallaf roi fy marn?

Gallwch chi gwblhau eich Arolwg STAR 2020 **ar-lein** trwy sganio'r **cod QR** gyda'ch dyfais symudol. Neu, mae'r arolwg wedi'i amgáu yn y rhifyn hwn i chi ei lenwi a'i ddychwelyd i ni.

### Beth nesaf?

Byddwn yn adolygu'r canlyniadau dros yr hydref a byddwn yn rhannu'r canlyniadau gyda chi yn newyddlen y gwanwyn. Hoffem ddiolch i chi am roi o'ch amser i lenwi'r arolwg.





# Canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Thrigolion 2018

**90%**
o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ar **ansawdd cyffredinol eu cartref.**
Mae hyn yn uwch na'r 86% yn 2016.
**1af** yng Nghymru.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



**88%**
o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'u **cymdogaeth** fel lle i fyw.
Mae hyn yn uwch na'r 85% yn 2016.
**4ydd** yng Nghymru.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



**89%**
o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu **rhent** yn rhoi gwerth am arian.
Mae hyn yn uwch na'r 85% yn 2016.
**3ydd** yng Nghymru.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



**75%**
o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod ni **gwrando ar eu barn a gweithredu arnynt.**
Mae hyn yn uwch na'r 71% yn 2016.
**6ed** yng Nghymru.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



**89%**
o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'r ffordd rydym yn delio â **gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.**
Mae hyn yn uwch na'r 85% yn 2016.
**1af** yng Nghymru.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



**91%**
o'n tenantiaid eu bod yn fodlon guda'n **gwasanaeth cyffredinol.**
Mae hyn yn uwch na'r 84% yn 2016.
**3ydd** yng Nghymru.
Wedi'i feincnodi yn erbyn 15 sefydliad.



## Eich priflaenoriaethau yw

- Atgyweirio a chynnal a chadw
- Gwrando ac actio
- Ansawdd y cartref
- Amgylchedd
- Teimlo'n ddiogel



# Canlyniadau 2019 Proses Apwyntiad Trwsio a Chynnal a Chadw

Y llynedd, bu'r timau Datblygu Cymunedol a Sefydliad Llafur Uniongyrchol (SLIU) yn siarad gyda'n tenantiaid am ffordd newydd arfaethedig o wneud apwyntiad trwsio. Ymatebodd dros 130 ohonoch ac mae'r canlyniadau yma!

**97%**

Dywedodd 97% o'n tenantiaid y byddai'n well ganddyn nhw **weld y newidiadau arfaethedig** ar gyfer apwyntiad trwsio yn cael eu rhoi.

**100%**

Dywedodd 100% o'n tenantiaidy bydden nhw'n hoffi gwasanaeth neges **destun er cwrteisi** i ddweud pa mor bel ydym ni ar y diwrnod.

**96%**

Mae 96% o'n tenantiaid yn teimlo'n **falch** o fod yn rhan o Dai Sir Ddinbych ac yn hoffi **newydd wedd a theimlad ein brandio**.

Yn dilyn gwaith trwsio,

**42%**

hoffai tenantiaid gwblhau holiadur bodlonrwydd **ar adeg y trwsio**.

**19%**

hoffai tenantiaid gwblhau holiadur bodlonrwydd **ar-lein**.

**17%**

hoffai tenantiaid gwblhau holiadur bodlonrwydd **dros y ffôn**.

**16%**

hoffai tenantiaid gwblhau holiadur bodlonrwydd **mewn ffordd arall**.

**6%**

hoffai tenantiaid gwblhau holiadur bodlonrwydd **drwy neges destun**.

**Beth nesaf?**

- Mae ein timau yn diweddaru ein systemau er mwyn cyflwyno'r broses apwyntiadau.
- Bydd gan y SLIU dabledi newydd fel y gallant reoli eu hapwyntiadau'n fwy effeithlon.
- Byddwn yn cynnig dyddiad i chi ar gyfer eich apwyntiad, yn hytrach na nifer o ddyddiau pan fyddwn yn ymateb.
- Byddwn yn dechrau edrych ar y mathau o waith trwsio ac yn newid y blaenoriaethau cyfredol. Bydd hyn yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaeth mwy hyblyg wrth ddelio gydag argyfwng neu drwsio arferol.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y canlyniadau hyn, cysylltwch â ni ar tai@sirddinbych.gov.uk neu drwy alw 01824 706000.**



# Cadw'n gynnes y gaeaf hwn – cyngor ar fudd-daliadau gwresogi

**Oeddech chi'n gwybod bod nifer o daliadau, cyngor a chefnogaeth ar gael ichi dros fisoedd y gaeaf? Dyma ychydig o bethau i'w hystyried:**

### Taliad Tanwydd y Gaeaf

Os cawsoch eich geni ar neu cyn 5 Ebrill 1954, fe allech chi gael rhwng £100- £300 i'ch helpu i dalu'ch biliau gwresogi. Fel rheol, byddech chi'n cael Taliad Tanwydd Gaeaf yn awtomatig os ydych chi'n gymwys a'ch bod chi'n cael Pensiwn y Wladwriaeth neu fudd-dal nawdd cymdeithasol arall (nid Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth Gyngor, Budd-dal Plant na Chredyd Cynhwysol). Os nad ydych wedi derbyn taliad yn awtomatig, ac yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yna mae'n werth gwneud hawliad. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 0800 731 0160. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r taliad hwn ar gyfer y gaeaf hwn yw 31 Mawrth 2020.

### Taliad Tywydd Oer

Gallech chi gael taliad o £ 25 am bob cyfnod o 7 diwrnod o dywydd oer iawn rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth. Rhaid i gofnod y tymheredd cyfartalog neu'r rhagolygon ar gyfer eich ardal fod yn sero gradd neu lai am 7 diwrnod yn olynol. Os ydych chi'n cael un o'r budd-daliadau isod, yna dylai'r taliad hwn ddod i chi yn awtomatig.

- Credyd Pensiwn
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Cynhwysol
- Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais

Os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n gymwys, ond nad ydych chi'n derbyn eich taliad, dywedwch wrth eich swyddfa Canolfan Gwaith a Mwy. Neu, os ydych chi'n cael Credyd Cynhwysol, yna mewngofnodwch i'ch cyfrif ac ychwanegu nodyn at eich cyfnodolyn.

### Cynllun Gostyngiad Cartref Cynnes

Gallech chi gael £140 oddi ar eich bil trydan o dan y cynllun hwn. Nid yw'r arian yn cael ei dalu i chi, mae'n ostyngiad untro ar eich bil trydan rhwng mis Medi a mis Mawrth. Efallai y gallwch gael y gostyngiad ar eich bil nwy yn lle os yw eich cyflenwr yn darparu nwy a thrydan i chi.

Mae dwy ffordd o gymhwyso ar gyfer y cynllun hwn:

- Rydych yn cael yr elfen Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn, a elwir yn 'grŵp craidd', neu
- Rydych ar incwm isel ac yn bodloni meini prawf eich cyflenwr ynni ar gyfer y cynllun, a elwir y 'grŵp ehangach'.

Cysylltwch â'ch cyflenwr i ddysgu mwy ac i weld a ydynt yn rhan o'r cynllun.

### Cynllun Tanwydd Consesiwn Cenedlaethol

Gallech chi gael tanwydd solet neu lwfans arian parod am ddim os ydych chi'n gyn-weithiwr i'r Bwrdd Glo Cenedlaethol (NCB) neu Gorfforaeth Glo Prydain (BCC). Mae angen i chi fod yn gymwys i gael y lwfans tanwydd trwy'r Cynllun Tanwydd Consesiwn Cenedlaethol (NCFS), a dim ond os ydych chi eisoes yn cael tanwydd trwy'r cynllun y gallwch chi gael y lwfans arian parod. I weld a ydych chi'n gymwys, cysylltwch â'r Cynllun ar 0345 759 0529.

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r budd-daliadau gwresogi hyn, ewch i www.gov.uk neu siaradwch â'ch swyddog tai ar 01824 706000.**





# Sut y gallwch chi gymryd rhan?



**Rydym am i'n holl denantiaid:**

- fynegi barn am sut y darperir ein gwasanaethau,
- gweithio mewn partneriaeth gyda ni i barhau i wella cartrefi a chymunedau
- gallu rhoi adborth i ni er mwyn gwella ein gwasanaethau, ac

**Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, rydym yn awyddus i glywed gennych. Os hoffech chi wirfoddoli a chymryd rhan, mae gennym ni nifer o gyfleoedd a gweithgorau yr ydym yn eu hystyried ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys:**

- Newyddlen olygyddol
- Adborth gan denantiaid
- Cynhwysiant digidol
- Cynhwysiant ariannol
- Datblygiad cymunedol

**Os ydych chi'n teimlo bod gennych unrhyw sgiliau a fyddai o fudd i'n hymrwymiad i fuddsoddi a gwella ein cymunedau, neu os ydych am ddatblygu sgiliau newydd, cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu tai@sirddinbych.gov.uk**

# Beth yw Sgwrs y Sir?

Gallwch gyfrannu at broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor o gysur eich cartref eich hun! Ymunwch â Sgwrs y Sir.

Ers dechrau'r pandemig Covid-19, mae mwy a mwy ohonom yn dewis cyfrannu at weithgareddau ar-lein. Hyd yn oed o gwis mewn tafarn dros y we i gorau dros y we a gynhaliwyd ar-lein.

Rydym yn teimlo ei fod yn gyfle perffaith i adael i chi wybod bod yna ffordd y gallwch gyfrannu at ymgynghoriad y Cyngor a gweithgareddau ymgysylltu ar-lein hefyd, drwy Borthol Sgwrs y Sir.

Mae'n wefan sy'n gadael i dimau gwahanol o amgylch y Cyngor ddatblygu digwyddiadau ymgysylltu, pleidleisiau, holiaduron a mwy i sicrhau eich bod yn cael y cyfle i roi eich barn i ni mor sydyn a hawdd a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed. Peidiwch â phoeni – os nad ydych yn dda gyda thechnoleg neu os nad ydych yn berchen ar un byddwn yn parhau i adael i chi wybod am yr ymgynghoriadau pwysig mewn ffordd arall.



Gallwch ryngweithio gyda Phorthol Sgwrs y Sir yn ddienw, neu gallwch gofrestru ar gyfer Y Panel, ein panel dinesydd ar-lein. Byddwch angen dweud ambell beth am eich hun a pha rannau o waith y cyngor sydd gennych ddiddordeb mewn cyfrannu atynt – a byddwn yn anfon e-bost atoch pan fyddwn yn cynnal gweithgaredd, digwyddiad neu ymgynghoriad sy'n cydfynd â'ch diddordebau (er enghraifft os ydych yn gofalu am yr amgylchedd).

**I weld gweithgareddau ac ymgynghoriadau presennol ac i gofrestru ar gyfer Y Panel, ewch i sgwrsysir.sirddinbych.gov.uk**

# Wyddoch chi...?

**Mae Tai Sir Ddinbych yma i helpu ac wedi ymrwymo i gynorthwyo â'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol.**

**Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:**

- Cymorth digidol a mynd ar-lein
- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor
- Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref
- Rheoli dyledion
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim




Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth.

**I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tîm tai ar 01824 706000.**

# Sut y gall Sir Ddinbych yn Gweithio eich cefnogi chi?

Yn ogystal â sut y gallwn eich helpu chi, mae Sir Ddinbych yn Gweithio yn wasanaeth cyflogadwyedd, sy'n ceisio cefnogi preswylwyr Sir Ddinbych, 16 oed a throsodd, sy'n wynebu tlodi.

Rydym yn cynnig cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o rwystrau y gallech eu hwynebu, fel,

- Cymorth i ganfod swydd
- Canfod gwaith neu leoliad gwirfoddoli
- Hyfforddiant a chymwysterau pellach
- Magu hyder a chefnogaeth i'ch ysgogi
- Creu neu wella CV
- Sgiliau a thechnegau cyfweliad
- Llenwi ffurflenni cais
- Datblygu sgiliau TG sylfaenol
- Eich cynorthwyo i ddeall eich hawl i dderbyn budd-daliadau
- Cymorth gyda chyllid ar gyfer offer, dillad cyfweliad a thystysgrifau
- Ariannu costau teithio i gyfweliadau, lleoliadau gwaith a hyfforddiant (yn ôl disgresiwn eich mentor)

Os byddwch yn cofrestru, bydd mentor yn cael ei neilltuo i chi, fydd yn eich cefnogi i gyrraedd yr amcanion a ddymunir gennych. Gallwch drafod unrhyw rwystrau sy'n eich atal rhag gwella eich amgylchiadau personol.

O fewn Sir Ddinbych yn Gweithio, mae gennym Gydlynwyr Cyflogaeth. Maent yn ymgysylltu â chyflogwyr amrywiol ar draws Sir Ddinbych a thu hwnt, gan ddarparu rhestr o gyfleoedd gwaith sydd ar gael i'n cyfranogwyr sy'n cael eu cynnig i'n tîm ni yn unig.

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio yn ymwneud â sawl sefydliad gwahanol, gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, Hyfforddiant Gogledd Cymru, Gwasanaethau Ieuenctid, Cefnogi Pobl a llawer mwy.

**Os ydych yn credu y gall Sir Ddinbych yn Gweithio gynnig cefnogaeth i chi, cysylltwch â nhw ar: Ffôn: 01745 331438 / 07342 070635 neu e-bost: sirddinbychyngweithio@sirddinbych.gov.uk**

# Swyddog Tai ar gyfer eich ardal chi

## Ardal 1

Swyddog Tai: **Sian Frost**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Aled Avenue, Buckley Avenue, Cefndy Road, Council Terrace, Ellis Avenue, Fforddlas, Gwalia Avenue, Kingsley Avenue, Marsh Road, Meredith Close, Meredith Crescent, Plas Cyril, St Davids Square, Vale Road, Victoria Road, Walford Avenue & War Memorial Court, Warren Road a William Street.*

## Ardal 2

Swyddog Tai: **Chris Wynne**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Arfon Grove, Brookes Avenue, Cramer Court, Frederick Street, Gwynfryn Avenue, Llys Brunswick, Llys Morgan, Llys Pen Y Cefndy, Menai Avenue, Rhydwen Close a Rhydwen Drive.*

## Ardal 3

Swyddog Tai: **Dawn Barraclough**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Bruton Park, Llys Glan Aber a Maes Emlyn.*

## Ardal 4

Swyddog Tai: **Louise Ellams**

**Yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Colin Drive, Eastville Avenue, Elwy Drive, Foel View Road, Geufron, Glyn Avenue, Hen Afon Road, Holland Park Drive, Howell Drive, Leonard Avenue, Llys Y Gerddi, Lynwood Drive, Mayfield Grove, Mona Terrace, Oakville Avenue, Pendre Avenue, Penymaes Avenue, Prince Edward Ave, Princess Elizabeth Ave, Ffordd Arfordir Y Rhyl, The Crescent, Thornley Avenue, Trellewelyn Road a Weston Court.*




## Ardal 5

Swyddog Tai: **Carmel Rider**

**Y Rhyl, yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Brynhedydd Close, Edgbaston Road a Sholing Drive.*

## Ardal 6

Swyddog Tai: **Dewi Proffit**

## Ardal 7

Swyddog Tai: **Louise Jones**

## Ardal 8

Swyddog Tai: **Helen Stanfield**

**Dinbych, yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Blaen Y Coed, Bron Y Crest, Bryn Seion, Bryn Siriol, Rhodfa Clwyd, Cysgodfa, Stryd Henllan, Llwyn Mair, Maes Yr Eglwys a Pen Y Graig.*

## Ardal 9

Swyddog Tai: **Linda Mair Jones**

**Dinbych, yn cynnwys y cyfeiriadau canlynol: Bod Nant, Bryn Garth, Bryn Stanley, Lloyd Avenue, Lôn Llewelyn, Maes Hyfryd, Maes Y Dre, Maes Y Goron, Maesglas, Myddleton Avenue, Lôn Y Post a Ffordd Y Ffair.*

## Ardal 10

Swyddog Tai: **Claire Hall**

## Ardal 11

Swyddog Tai: **Bethan Parry**

# Ac mae'r wefan yn fyw!





Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn cryfhau ein hunaniaeth gyda'n tenantiaid, staff o fewn ein cymunedau a phartneriaid drwy frand newydd, logo, cyhoeddiadau, cyfryngau cymdeithasol, gwisgoedd, digwyddiadau cymunedol ac ymgysylltu. Mae Tai Sir Ddinbych yn falch i ddarparu gwasanaeth y gall tenantiaid a staff fod yn falch ohono. Rydym wedi gweithio gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych yn ystod pob cam i sicrhau ein bod yn gwneud y peth iawn i denantiaid, bod gwybodaeth yn berthnasol a sut i ddatblygu ein presenoldeb ar-lein.

Rydym yn gyffrous iawn i gyhoeddi bod ein gwefan newydd nawr yn fyw www.taisirddinbych.co.uk. Rydym wedi bod yn ei ddefnyddio yn ystod y pandemig i hysbysu pawb am newidiadau i wasanaethau yn ogystal â chefnogaeth iechyd a lles. Mae'r wefan newydd yn ffynhonnell wych o wybodaeth i chi, i wybod am wasanaethau rydym yn eu darparu, sut y gallwn eich helpu chi, beth sy'n mynd ymlaen a llawer mwy! Cymerwch yr amser i ymweld â'r wefan a rhoi eich barn neu beth hoffech ei weld ar y wefan yn y dyfodol.




Mae rhai syniadau yr ydym yn gweithio arnynt ar gyfer y cam nesaf yn cynnwys:

- Porthol tenant – ble gallwch gael mynediad i'ch taflen ddatgan rhent diweddaraf, talu eich rhent, gweld llythyrau a dogfennaeth arall a anfonwyd atoch, hysbysiadau diweddaraf, arolygon, olrhain atgyweiriad a llawer mwy.
- Canllawiau fideo 'Sut i' i helpu yn eich cartref, rheoli eich arian ac yn y blaen.
- Anfon neges testun ac e-bost gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, nodyn atgoffa am ymweliadau, debydau uniongyrchol taliad rhent ac arolygon.
- Sgwrs fyw – fel dull amgen i chi gysylltu â ni. Rydym yn ymwybodol nad pawb sy'n hoffi siarad ar y ffôn, aros am ymateb i e-bost neu alwad yn ôl.
- Ap tenant – dyluniwyd i wella cyfathrebu gyda chi a rhoi mynediad cynt i'ch porthol a chyfrif tenant.

Os oes yna unrhyw beth yr hoffech weld yn cael ei ddatblygu'n ddigidol, yna gadewch i ni wybod, a byddem wrth ein bodd yn clywed am eich syniadau. Rydym yn arbennig o awyddus i ymgysylltu â'n tenantiaid iau hefyd, felly byddai unrhyw awgrymiadau yn wych.





# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych 2020

Mae'n bosibl eich bod wedi gweld yn eich diweddariad diweddar ein bod wedi penderfynu gohirio Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych, o ganlyniad i'r sefyllfa coronafeirws presennol. Nid oedd yn benderfyniad hawdd, yn arbennig ar ôl yr holl waith caled gan staff a thenantiaid i'w roi at ei gilydd, ond roeddem yn meddwl ei fod y penderfyniad cywir i gadw pawb yn ddiogel ac yn iach.

Rydym yn dechrau edrych ymlaen at 2021, a chael darpar ddyddiad 22 Medi 2021 ar gyfer y gwobrau tenantiaid nesaf. Unwaith y byddwn yn gwybod mwy am y sefyllfa sy'n datblygu o amgylch coronafeirws, yna byddwn yn cadarnhau hyn yn y gwanwyn. Er mwyn i chi gael eich enwebiadau yn barod ar gyfer 2021, dyma'r categorïau gwobrau:

- Tenant y flwyddyn
- Tenant Ifanc y Flwyddyn
- Cymydog y Flwyddyn
- Preswylydd Tai / Grŵp Cymunedol y Flwyddyn
- Gwasanaeth i Gwsmeriaid Tai Sir Ddinbych y flwyddyn
- Prosiect Cymunedol y Flwyddyn
- Arwr Cymunedol y Flwyddyn
- Gardd y Flwyddyn – Tenant
- Gardd y flwyddyn – ardal gymunedol
- Gardd y flwyddyn – Cymuned

Paratowch eich enwebiadau!

# TPAS Cymru/Erthygl Pyls Tenant (TPAS)

Mae TPAS Cymru yn sefydliad sy'n gweithio gyda landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru i helpu i ddatblygu gwasanaethau tai. Maent yn cynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant ac ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru ac yn cynnwys arbenigedd sefydliadau eraill tebyg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gweld pa ddigwyddiadau sydd ar gael, yna cliciwch yma.

## Beth yw Pyls Tenant?

Ydych chi eisiau gwneud tai yn well?

Pyls Tenant yw llais tenantiaid yng Nghymru. Mae wedi'i greu gan TPAS Cymru a chefnogir gan Lywodraeth Cymru. Eu prif nod yw canfod beth sydd o bwys mwyaf i denantiaid yng Nghymru.

Mae canlyniadau eu harolygon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a landlordiaid i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid ac sy'n gwneud tai yng Nghymru yn ddiogel ac yn deg.

**Dweud eich dweud drwy ymuno â'r miloedd o denantiaid sydd wedi cofrestru eisoes yn www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid**